**Cyngor Sir Dddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 27 Mai 2014**

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau. |
| **2** | DATGAN CYSYLLTIAD | Ni chodwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb personol neu fuddiannau sy'n rhagfarnu. |
| **3** | MATERION BRYS | Dim materion brys wedi'u codi. |
| **4** | COFNODION | ***PENDERFYNWYD*** *y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Ebrill 2014 fel cofnod cywir ac y dylai'r Arweinydd eu llofnodi.* |
| **5** | POLISI ENWI STRYDOEDD A RHIFO | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet -*<br><br>*(a) yn cytuno ar y Polisi Enwi Strydoedd a Rhifo newydd arfaethedig fel y'i nodwyd yn Atodiad 1 i'r adroddiad, yn amodol ar y diwygiadau canlynol -*<br><br>- *Bod paragraff 4.3, Adran C yn cael ei ail-eirio er mwyn egluro na allai'r Cyngor wrthod cais i ychwanegu enw i eiddo â dim ond rhif arno ar hyn o bryd ond y byddai'n cyhoeddi canllawiau ynghylch priodoldeb enw'r eiddo er mwyn osgoi gwrthdaro ac yn achosi tramgwydd*<br>- *dileu paragraff 1.9, Adran B yn ymwneud â'r defnydd o atalnodi*<br>- *cynnwys "Court" a "View" ar y rhestr o ôl-ddodiaid derbyniol*<br>- *bod paragraff 1.6, Adran B yn cael ei ddiwygio gyda'r geiriau ychwanegol "oni bai bod achos clir yn cael ei wneud ynghylch cysylltiad hanesyddol neu ddiwylliannol yr unigolyn i'r tir neu'r gymdogaeth", a*<br><br>*(b) nodi bod y swyddogaeth enwi strydoedd a rhifo yn cael ei reoli gan y Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio.* |
| **6** | DATBLYGU CANOLFAN NOVA PRESTATYN | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo'r £108,864 er mwyn symud y cynllun ymlaen i'r cam dylunio manwl.* |

**Cyngor Sir Dddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 27 Mai 2014**

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| **7** | PROSIECTAU TRAWSNEWID CAFFAEL | ***PENDERFYNWYD:-***<br><br>*(a) Bod y Cabinet yn cymeradwyo achos busnes terfynol ar gyfer uno timau caffael Sir y Fflint a Sir Ddinbych i fod yn Uned Caffael Corfforaethol sengl a gynhelir gan Sir Ddinbych;*<br><br>*(b) Bod datblygu a chytuno ar y Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer Uned ar y cyd yn cael ei ddirprwyo i swyddogion priodol (Pennaeth Cyllid ac Asedau, Pennaeth Rheolwr Caffael Strategol y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd) mewn ymgynghoriad gyda'r Aelod Cabinet dros Gyllid ac Asedau;*<br><br>*(c) Bod y Cabinet yn cymeradwyo achos busnes terfynol y Prosiect Caffael Tair Sir, a*<br><br>*(d) bod adroddiad yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor Archwilio perthnasol neu'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ar weithrediad y trefniadau newydd ar ôl y deuddeg mis cyntaf o weithredu.* |
| **8** | ADRODDIAD CYLLID | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2014/15 a'r cynnydd yn erbyn strategaeth y gyllideb a gytunwyd.* |
| **9** | RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET | ***PENDERFYNWYD*** *bod Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet yn cael ei nodi.* |
| **10** | CAFFAEL EIDDO A THIR YN DEFNYDDIO GORCHYMYN PRYNU GORFODOL, 21-24 RHODFA'R GORLLEWIN A THIR YN STRYD Y DŴR, Y RHYL | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo defnyddio pwerau Prynu Gorfodol i gaffael y budd rhydd-ddaliol y tir fel y nodwyd ar y Cynllun yn Atodiad A i'r adroddiad fel Plot 5 yn unol ag Adran 226 (1)(b) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.* |